

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) – y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)

Mawrth 2022

Cyflwyniad

1. Ar 7 Ionawr 2022, gosododd Llywodraeth Cymru [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol](#) (Memorandwm Rhif 2) (PDF 253KB) ar y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir). Mae teitl hir y Bil yn nodi mai ei ddiben yw gwneud darpariaeth ar gyfer lles rhai anifeiliaid penodol a gedwir ym Mhrydain Fawr, neu a gaiff eu mewnfario oddi yma. [Cytunodd](#) (PDF 39.1KB) y Pwyllgor Busnes y caiff y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil (Memorandwm Rhif 2) ei drafod ac y cyflwynir adroddiad arno, i'r Senedd, erbyn 3 Mawrth 2022. Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwnnw (y cyfeirir ato o hyn ymlaen yn yr adroddiad hwn fel "y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol blaenorol" ar ôl iddo gael ei ddisodli gan fersiwn ddiwygiedig ar 3 Mawrth) ar 3 Chwefror 2022. Gan fod cyfarfod nesaf y Pwyllgor wedi'i drefnu ar gyfer 3 Mawrth, penderfynodd yr Aelodau i gytuno ar adroddiad mewn gohebiaeth.

2. Fel y nodwyd isod, gwnaed newidiadau i Ran 1 o'r Bil i gynnwys trwyddedu primatiaid. Nid oedd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol a ystyriwyd ar 3 Chwefror yn cynnwys digon o fanylion am y trefniadau trwyddedu. Wedi hynny, tynnodd Llywodraeth Cymru'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwnnw yn ôl a'i ddisodli â [fersiwn newydd](#) (y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn fel "y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol newydd"), a osodwyd ar 3 Mawrth ac sy'n rhoi rhagor o fanylion.



3. Ar 8 Mawrth, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymestyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol i 31 Mawrth 2022. Nid oedd gan y Pwyllgor hwn ddigon o amser yn ei raglen waith i graffu ymhellach yn ei gyfarfod nesaf a drefnwyd cyn y terfyn ar gyfer cyflwyno'r adroddiad ar 31 Mawrth (17 Mawrth), ac felly mae wedi cadw at ei benderfyniad gwreiddiol i gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol erbyn y terfyn amser, o ystyried y manylion ychwanegol sydd wedi'u cynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol newydd.

4. Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol yn flaenorol ar gyfer y Bil hwn ar 30 Medi 2021, a gosododd ei adroddiad ar y Memorandwm ar 8 Hydref 2021. Mae'r adroddiad hwnnw'n rhoi trosolwg o ddarpariaethau'r Bil wrth ei gyflwyno. Nododd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y ceisiwyd cydsyniad ar gyfer nifer o gymalau yn Rhannau 2, 3 a 4 o'r Bil. Bryd hynny, roedd Rhan 1 o'r Bil - Cymalau 1 i 25 - yn ymwneud â materion gan gynnwys cadw, gwerthu a bridio primatiaid, yn gymwys i Loegr yn unig ac nid oedd angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Nododd adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol fod safbwyntiau gwrthgyferbyniol ar rai agweddau ar y Bil, er enghraifft mewn perthynas â phoeni da byw ac allforio anifeiliaid byw, ond ni welodd y Pwyllgor ddim rheswm dros wrthwynebu cydsyniad y Senedd.

Newidiadau i'r Bil

5. Mae'r Bil bellach wedi mynd drwy Dŷ'r Cyffredin ac wedi cyrraedd y cyfnod adrodd, a gwnaed nifer fawr o ddiwygiadau yn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin. Newid polisi sylweddol yw bod Rhan 1 o'r Bil wedi'i diwygio i estyn y gwaharddiad ar gadw primatiaid, ac eithrio o dan drwydded, i Gymru. Bydd angen i berchnogion fodloni amodau penodol sy'n gysylltiedig ag amgylchedd, deiet, llety ac anghenion ymddygiadol yr anifeiliaid. Yng Nghymru, Gweinidogion Cymru fydd yn pennu'r amodau hyn. Yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol, roedd Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod yn fodlon i'r darpariaethau primatiaid gael eu hestyn i Gymru "*ar yr amod bod Gweinidogion Cymru yn cael pwerau mewn perthynas â Chymru sy'n cyfateb i rai'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr.*"

6. Mae RSPCA Cymru yn amcangyfrif bod 120 o fwncïod yn cael eu cadw fel anifeiliaid anwes yng Nghymru ar hyn o bryd ac mae'n croesawu rheoleiddio pellach ar gadw primatiaid yn y Bil. Fodd bynnag, yn y pen draw, mae RSPCA Cymru yn credu bod diwallu anghenion primatiaid yn 'amhosibl yn y bôn' mewn amgylchedd domestig ac mae wedi galw am roi terfyn llawn ar yr arfer hwn yng Nghymru. Nododd nad yw amodau lles y drwydded arfaethedig wedi'u cynnwys yn y Bil, felly mae diffyg eglurder ynghylch effaith wirioneddol y ddeddfwriaeth hon. Mae RSPCA Cymru wedi dweud wrth y Pwyllgor ei fod am i Lywodraeth Cymru ymgynghori'n ystyrlon ar

amodau'r drwydded, ac mae'n dweud y dylai gyfyngu ar gadw primatiaid yn breifat i'r lleiafswm posibl. Mae RSPCA Cymru yn dadlau y byddai gwaharddiad llwyr ar werthu primatiaid yn well ac yn haws i'w orfodi gan awdurdodau lleol. Eglurodd eu bod eisoes yn gorfodi llawer o raglenni newydd neu rai wedi'u diweddarau sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid, a'u bod yn aml yn brin o adnoddau.

Y darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer yn awr

7. Nid oedd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol blaenorol Llywodraeth Cymru yn glir ynghylch y graddau y mae angen cydsyniad y Senedd ar Ran 1 o'r Bil, ac Atodlenni 1 i 4 sy'n ymwneud â phrimatiaid. Nododd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol blaenorol (Memorandwm Rhif 2) y gofyniad am gydsyniad ar gyfer y diwygiadau sy'n cael eu gwneud i Ran 1 i 4 ac Atodlenni 1 i 3 o'r Bil. Ni chrybwyllwyd Atodlen 4 yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol.

8. Nododd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol blaenorol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) fod nifer o welliannau i'r Bil wedi'u cytuno "*ar 16 a 18 Tachwedd ac mae sawl un ohonynt yn gwneud darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Gellir gweld fersiwn o'r Bil fel ydoedd ar 25 Tachwedd sy'n cynnwys y gwelliannau...*". Darparodd Llywodraeth Cymru linc i dudalen Bil Senedd y DU. Fodd bynnag, y fersiwn ddiweddaraf o'r Bil a oedd ar gael ar yr adeg y trafododd y Pwyllgor hwn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol blaenorol (Memorandwm Rhif 2) oedd 18 Tachwedd 2021.

9. Nid yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi cyhoeddi diweddiariad i'r Nodiadau Esboniadol hyd yn hyn, felly nid oedd yn bosibl i gynghorwyr cyfreithiol y Senedd weld pa ddarpariaethau yn y Bil diwygiedig y mae Llywodraeth y DU bellach yn ystyried eu bod o fewn cymhwysedd y Senedd.

RHAN 1 – PRIMATIAID

10. Mae Rhan 1 o'r Bil, sydd bellach yn gymalau 1 i 24 (cymalau 1 i 25 gynt) yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chadw, gwerthu a bridio primatiaid. Mae Atodlenni 1 i 4 i'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phrimatiaid. Mae crynodeb o'r darpariaethau wedi'i nodi isod.

11. Mae Cymal 1 yn gwahardd cadw primatiaid heb drwydded. Mae Cymal 2 yn nodi y caiff deiliad trwydded primatiaid gadw primatiaid yn unol â darpariaethau trwydded primatiaid.

- 12.** Mae Cymal 3 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cenedlaethol priodol wneud rheoliadau sy'n pennu safonau trwyddedu y mae'n rhaid i ddeiliad trwydded eu bodloni ar gyfer gofalu am primatiaid a'u rheoli.
- 13.** Mae Cymal 4 yn darparu y caiff unigolyn wneud cais i'r awdurdod lleol am drwydded primatiaid, ac mae'n gwneud darpariaeth ynghylch sut, a phwy, sy'n cael gwneud cais am drwydded. Mae Cymal 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch penderfynu ar geisiadau am drwyddedau primatiaid gan yr awdurdod lleol.
- 14.** Mae Cymal 6 yn darparu ar gyfer yr amodau sydd yn rhan o drwydded primatiaid.
- 15.** Mae Cymal 7 yn darparu ar gyfer amrywio trwydded primatiaid (o ran nifer, rhywogaethau a/neu fangreoedd), ac ar gyfer ei hildio.
- 16.** Mae Cymal 8 yn galluogi gwneud cais i adnewyddu trwydded primatiaid, a phenderfynu ar gais o'r fath.
- 17.** Mae Cymal 9 yn gwneud darpariaeth os bydd deiliad trwydded yn marw. Mewn amgylchiadau o'r fath, bernir bod y drwydded wedi'i rhoi i gynrychiolwyr personol deiliad y drwydded.
- 18.** Mae Cymal 10 yn darparu pŵer i awdurdod lleol archwilio mangreoedd trwyddedig.
- 19.** Mae Cymal 11 yn galluogi awdurdod lleol i godi ffioedd mewn perthynas â cheisiadau am drwyddedau ac arolygiadau.
- 20.** Mae Cymal 12 yn darparu ar gyfer troseddau penodol mewn perthynas â thrwyddedau primatiaid, ac yn cyflwyno Atodlen 2 (hysbysiadau cosb benodedig).
- 21.** Mae Cymal 13 yn galluogi awdurdod lleol i roi hysbysiad cywiro i ddeiliad trwydded primatiaid, y mae'r awdurdod o'r farn ei fod yn methu â bodloni unrhyw un o'r safonau trwyddedu. Mae Cymal 13 hefyd yn ei gwneud yn drosedd i fethu â chydymffurfio â hysbysiad cywiro.
- 22.** Mae Cymal 14 yn darparu ar gyfer yr amgylchiadau pan fo'n rhaid i awdurdod lleol ddirymu trwydded primatiaid neu pan gaiff wneud hynny.
- 23.** Mae Cymal 15 yn galluogi awdurdod lleol i roi cyfarwyddyd pan fo primat yn cael ei gadw'n anghyfreithlon, sy'n nodi nad yw ceidwad y primat yn torri'r gwaharddiad i gadw primat heb drwydded, yn ystod cyfnod atal penodedig.

- 24.** Mae Cymal 16 yn caniatáu i awdurdod lleol wneud cais i lys yr ynadon am orchymyn i brimat a gedwir yn anghyfreithlon gael ei dynnu oddi ar ei geidwad a'i drosglwyddo i berson arall, ei werthu neu fel arall ei waredu neu ei roi i lawr.
- 25.** Mae Cymal 17 yn ei gwneud yn drosedd gwerthu, rhoi neu drosglwyddo primat i rywun nad yw wedi'i drwyddedu neu wedi'i awdurdodi fel arall i gadw primat o dan ddeddfwriaeth arall.
- 26.** Mae Cymal 18 yn ei gwneud yn drosedd i berson gymryd camau i ddefnyddio primat sydd yn ei ofal i fridio, neu i gadw primatiaid gyda'i gilydd mewn amgylchiadau lle maent yn gallu bridio, heb drwydded neu awdurdodiad perthnasol o dan ddeddfwriaeth berthnasol arall.
- 27.** Mae Cymal 19 yn cyflwyno Atodlen 4 sy'n rhoi pwerau mynediad mewn perthynas â'r troseddau a ddisgrifir yng nghymal 1, 12, 17 a 18.
- 28.** Mae Cymal 20 yn galluogi'r awdurdod cenedlaethol priodol i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau o dan Ran 1 o'r Bil.
- 29.** Mae Cymal 21 yn caniatáu i'r awdurdod cenedlaethol priodol ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth am y primatiaid, y ffioedd a'r wybodaeth arall sy'n berthnasol i gyflawni eu swyddogaethau o dan Ran 1.
- 30.** Mae Cymal 22 yn darparu pŵer i wneud rheoliadau i'r awdurdod cenedlaethol priodol gymhwyso Rhan 1, ac felly'r gyfundrefn drwyddedu, i fathau eraill o anifeiliaid gwyllt.
- 31.** Mae Cymal 23 yn darparu ar gyfer yr amgylchiadau pan ystyrir bod person yn "cadw" primat.
- 32.** Mae Cymal 24 yn cynnwys diffiniadau ar gyfer gwahanol dermau a ddefnyddir yn Rhan 1 o'r Bil.

Atodlen 1 - Darpariaeth drosiannol sy'n ymwneud â phrimatiaid

- 33.** Mae Atodlen 1 yn darparu ar gyfer cynllun trosiannol ar gyfer personau sy'n cadw primatiaid fel anifeiliaid anwes cyn i'r gwaharddiad ar gadw primatiaid heb drwydded ddod i rym.

Atodlen 2 – Troseddau sy'n ymwneud â phrimatiaid: hysbysiadau cosb benodedig

- 34.** Mae Atodlen 2 yn darparu ar gyfer cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig gan awdurdodau lleol am droseddau mewn cysylltiad â chadw primatiaid o dan Ran 1 o'r Bil. Mewn amgylchiadau o'r fath, gall troseddwr ysgwyddo'i atebolrwydd drwy dalu dirwy.

Atodlen 3 – Penderfyniadau sy'n ymwneud â phrimatiaid: sylwadau ac apelau

35. Mae Atodlen 3 yn nodi hawliau unigolion i gyflwyno sylwadau ac apelau mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch gwneud ceisiadau, cyflwyno hysbysiadau cywiro a dileu neu newid trwyddedau sy'n gysylltiedig â chadw primatiaid.

Atodlen 4: Pwerau mynediad mewn perthynas â phrimatiaid

36. Mae Atodlen 4 yn darparu pwerau mynediad i awdurdodau lleol wrth orfodi'r drefn drwyddedu ar gyfer cadw primatiaid. Mae'n rhoi'r awdurdod i arolygwyr gael gwarant sy'n caniatáu mynediad i unrhyw fangre lle ceir sail resymol i gredu bod trosedd wedi'i chyflawni o dan gymalau 1, 12, 17 neu 18.

37. Gan fod y darpariaethau sy'n ymwneud â phrimatiaid hefyd yn gymwys yng Nghymru, mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer Rhan 1 gyfan o'r Bil (cymalau 1 i 24) ac Atodlenni 1 i 4 o'r Bil. Mae'r rhain yn gwneud darpariaeth ynghylch lles anifeiliaid, sy'n fater datganoledig.

38. Nid oedd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol blaenorol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) yn egluro darpariaethau Rhan 1 nac Atodlenni 1 i 4 yn fanwl, er mwyn galluogi darllenwyr i ddeall beth oedd ystyr y darpariaethau a beth yw'r goblygiadau i Gymru. Nid oedd yn glir ychwaith o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pa ddarpariaethau yn Rhan 1, ac Atodlenni 1 i 4, yr oedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yn unol â Rheol Sefydlog 29. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol newydd (Memorandwm Rhif 2) yn cywiro hyn drwy ddarparu rhagor o fanylion.

RHAN 2 – CŴN SY'N YMOSOD AR DDA BYW NEU YN EU POENI

39. Gwnaed diwygiadau hefyd i Ran 2 o'r Bil yn ystod y Cyfnod Pwyllgor, fel y nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol. Mae Rhan 2 o'r Bil bellach yn cynnwys cymalau 25 i 39 (yn flaenorol roedd yn cynnwys cymalau 26 i 1).

40. Mae'r cymal 38 blaenorol (rheoliadau o dan Ran 2) wedi'i ddileu. Mae'r cymal 38 presennol (dehongliad cyffredinol), sef cymal 40 gynt, yn diffinio'r termau a ddefnyddir yn Rhan 2. Mae'r diwygiadau'n ychwanegu diffiniad o geirw wedi'u hamgáu ("enclosed deer"), baeddod gwyllt wedi'u hamgáu ("enclosed wild boar"), ac yn gwneud newidiadau i'r diffiniad o dda byw ("livestock").

41. Barn Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad y Senedd ar y diwygiadau hyn i Ran 2 o'r Bil gan eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth, fel y maent yn berthnasol i Gymru, y mae'r ddau ohonynt yn faterion datganoledig.

RHAN 3: DARPARIAETHAU ERAILL YNGLŶN AG ANIFEILIAID A GEDWIR

42. Mae diwygiadau i Ran 3 o'r Bil hefyd yn gofyn am gydsyniad y Senedd (sef cymalau 42 i 29 bryd hynny). Mae Rhan 3 o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn cynnwys cymalau 40 i 49. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 40 i 42 a 45 i 49. Nid oes angen cydsyniad ar gyfer cymalau 43 a 44 gan fod y rhain yn gymwys i Loegr yn unig - cymryd anifeiliaid anwes yn Lloegr (cymal 43) a phwerau'r Ysgrifennydd Gwladol (cymal 44) i ddiwygio cymal 43 i'w estyn i rywogaethau anifeiliaid eraill yn ogystal â chŵn.

43. Roedd Cymal 40 (gwahardd allforio da byw i'w cigyddda etc) yn gymal 42 gynt, ac fe'i diwygiwyd i wneud newidiadau i'r diffiniad o dda byw perthnasol ("relevant livestock"). Roedd Cymal 41 (pŵer i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â gorfodi cymal 40) yn gymal 43 gynt.

44. Roedd Cymal 42 (pwerau i ddiwygio neu ddirymu cyfraith yr UE a ddargedwir) yn gymal 44 gynt ac fe'i diwygiwyd.

45. Mae Cymal 45 (lleihau'r terfyn ar symud cŵn, cathod a ffuredau yn anfasnachol) wedi'i ddiwygio ac mae'r diwygiadau canlyniadol hyn yn gofyn am gydsyniad y Senedd.

46. Mae Cymal 46 (pwerau sy'n ymwneud â mewnforio cŵn, cathod a ffuredau penodol) wedi'i ddiwygio i alluogi darpariaeth ar gyfer cynnwys esemptiadau a thrwyddedau mewn rheoliadau a wneir o dan gymal 46(1).

47. Nid yw Cymal 47 (sŵau) wedi'i ddiwygio.

48. Mae Cymal 48 yn diwygio Deddf Lles Anifeiliaid 2006 fel bod adran 31 o'r Ddeddf honno (terfynau amser ar gyfer erlyn) yn gymwys i droseddau o dan reoliadau a wneir o dan y Ddeddf, yn ogystal â throseddau o dan y Ddeddf ei hun. Yn yr un modd, mae'r diwygiadau'n darparu bod adran 51 (arolygwyr) yn gymwys mewn perthynas â darpariaethau rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf, yn ogystal ag mewn perthynas â darpariaethau'r Ddeddf. Mae cymal 48 yn gofyn am gydsyniad y Senedd.

49. Mae Cymal 49 wedi'i ddiwygio er mwyn creu swyddogaethau cydredol. Mae'r cymal hwn yn diffinio'r awdurdod cenedlaethol priodol ("appropriate national authority") mewn perthynas â Chymru fel Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n gweithredu gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae'r diwygiadau hyn yn gofyn am gydsyniad y Senedd.

RHAN 4 - CYFFREDINOL

50. Mae Rhan 4 bellach yn cynnwys cymalau 50-55. Mae cymal 50 (pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol) yn cadw ei rifau, ond mae cymal 51 bellach yn gymal 53 (cychwyn), mae cymal 52 bellach yn gymal 54 (rhychwant), ac mae cymal 53 bellach yn gymal 55 (teitl byr).

51. Mae dau gymal wedi'u hychwanegu at Ran 4, sef cymalau 51 a 52. **Mae Cymal 51** yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â swyddogaethau cydredol yng Nghymru. Mae hwn yn diwygio Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac yn ei gwneud yn ofynnol cael cydsyniad y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 29.1(ii) am ei fod yn newid cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. **Mae Cymal 52** yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â rheoliadau. Mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymal hwn.

52. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 50 a 52 i 55 o'r Bil gan eu bod yn ymwneud â materion datganoledig, ac mae Cymal 51 yn gofyn am gydsyniad y Senedd gan ei fod yn newid cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

53. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen cydsyniad ar gyfer y diwygiadau i gymalau 50, 52 a 53. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol newydd yn nodi ym mharagraff 21 nad oes angen cydsyniad ar gyfer cymal 51.

Atodlen 5 – Sŵau

54. Mae dal angen cydsyniad y Senedd ar gyfer Atodlen 5 i'r Bil, sy'n ymwneud â sŵau.

Pwerau dirprwyedig

55. Mae'r pwerau i wneud rheoliadau a ganlyn wedi'u darparu i Weinidogion Cymru gan y diwygiadau yn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.

56. **Mae Cymal 3** yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cenedlaethol priodol wneud rheoliadau sy'n sefydlu'r safonau trwyddedu sy'n ymwneud â gofalu am primatiaid a'u rheoli. Mae'n nodi rhestr nad yw'n gynhwysfawr o'r hyn y gallai'r safonau trwyddedu eu cynnwys, megis y mathau o amgylchedd neu lety ar gyfer cadw primatiaid a'u deiet. Yn ogystal, caiff yr awdurdod cenedlaethol priodol wneud rheoliadau sy'n nodi'r gofynion ar ddeiliaid trwyddedau mewn perthynas â gosod microsglodyn ar brimatiaid a gedwir o dan drwyddedau primatiaid. Rhaid i'r rheoliadau gael eu gwneud o dan y weithdrefn gadarnhaol. Mae'r cymal hwn hefyd yn rhoi pwerau i'r awdurdod cenedlaethol priodol wneud rheoliadau sy'n nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i ddeiliad trwydded primataid ei darparu i'r awdurdod lleol perthnasol. Caniateir i reoliadau sy'n darparu ar gyfer gofynion gwybodaeth gael eu gwneud o dan y weithdrefn

negyddol. Cyn gwneud unrhyw reoliadau o dan y cymal hwn, rhaid i'r awdurdod cenedlaethol priodol ymgynghori â'r cyfryw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy.

57. Mae **Cymal 22** yn rhoi pŵer i'r awdurdod cenedlaethol priodol ddiwygio Rhan 1 o'r Bil i estyn, drwy reoliadau, y gyfundrefn drwyddedu i anifeiliaid gwyllt eraill a gedwir, gydag addasiadau os oes angen. Cyn arfer y pŵer hwn, rhaid i'r awdurdod cenedlaethol priodol ymgynghori â'r cyfryw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy.

58. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau sydd wedi'i gynnwys yng **nghymal 42** (cymal 44 gynt) wedi ei estyn i alluogi rheoliadau o dan adran 12(1) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 i ddiwygio neu ddirymu offerynnau a wnaed o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

59. Mae **Cymal 50** o'r Bil wedi'i ddiwygio i roi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud darpariaeth sy'n "ganlyniadol i unrhyw ddarpariaeth o Ran 1 a Rhan 3 fel y mae'n gymwys i Gymru" pan fo darpariaeth o'r fath o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

60. Mae **Cymal 53** yn galluogi Gweinidogion Cymru i gychwyn darpariaethau penodol yn y Bil drwy reoliadau.

61. Mae **Paragraff 1 o Atodlen 1** yn galluogi'r awdurdod cenedlaethol priodol i wneud rheoliadau i enwi dyddiad cyn y mae'n rhaid i primat fod wedi'i gadw gan berson er mwyn i'r person hwnnw fod yn gymwys i gofrestru'r primat. Bydd y dyddiad a nodir yn y rheoliadau yn ddyddiad cyn i'r gwaharddiad ar gadw primatiaid ddod i rym fel y gall perchnogion primatiaid baratoi ar gyfer y gyfundrefn drwyddedu a gyflwynir.

62. Caiff rheoliadau a wneir o dan **baragraff 3 o Atodlen 1** hefyd bennu'r cyfnod pryd y caiff y perchnogion uchod wneud cais i gofrestru eu primatiaid.

63. Mae **Cymal 52(9)** yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru ddilyn y weithdrefn gadarnhaol wrth wneud offeryn statudol sy'n cynnwys:

- (a) rheoliadau o dan adran 3(1) neu (3)(b),
- (b) rheoliadau o dan adran 22,
- (c) rheoliadau o dan Ran 3 ac eithrio rheoliadau a wneir yn rhinwedd adran 46(3)(c), neu
- (ch) rheoliadau o dan adran 50 sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu darpariaeth a wneir drwy ddeddfwriaeth sylfaenol neu brif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir.

64. Mae Cymal 59 (10) yn cadarnhau y caiff unrhyw offeryn statudol arall a wneir gan Weinidogion Cymru ddilyn y weithdrefn negyddol.

Swyddogaethau cydredol

65. Mae Cymal 49 yn diffinio awdurdod cenedlaethol priodol ("appropriate National authority"), mewn perthynas â Chymru, fel Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n gweithredu gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru. Mae hyn yn creu swyddogaethau cydredol.

66. Mae Cymal 51 o'r Bil yn diwygio Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i gynnwys eithriad i'r cyfyngiadau sy'n ymwneud ag awdurdodau a gedwir yn ôl mewn perthynas â'r Bil, ac eithriad i'r cyfyngiadau sy'n ymwneud â Gweinidogion y Goron. Effaith y newidiadau hyn yw bod cyfyngiadau penodol ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 7B, yn cael eu datgymhwyso mewn perthynas â swyddogaethau a roddir gan y Bil, neu o dan y Bil. Nododd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) blaenorol Llywodraeth Cymru:

"...Mae'r ddarpariaeth hon yn nodi'r 'eithriad' sy'n dileu'r gofyniad i Weinidog y Goron gydsynio i ddarpariaeth Deddf Senedd sy'n addasu neu'n dileu swyddogaeth Gweinidogion Cymru o roi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pwerau o dan gymal 48 (Mae Cymal 51 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion a gedwir yn ôl yn rhinwedd (Paragraff 7 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru).

"Fel arfer, ni fyddai Llywodraeth Cymru am weld creu swyddogaethau cydredol newydd. Mae natur Cymal 43 (Allforio da byw) a Chymal 46 (Mewnforio cŵn, cathod a ffuredau) o'r fath fel bod dull gweithredu drwy Brydain Fawr gyfan yn debygol o gael ei ystyried yn briodol am resymau cysondeb ac ymarferoldeb er mwyn sicrhau dull unffurf o reoli allforio a mewnforio ar ffiniau. Mae'n bosibl y byddai cael dull gweithredu sy'n wahanol i Gymru, neu unrhyw ran arall o Brydain Fawr, yn achosi anawsterau i berchnogion/ceidwaid anifeiliaid ac asiantaethau gorfodi."

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil

67. Nododd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol blaenorol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ei safbwynt ar y Bil fel y'i diwygiwyd:

"Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwelliannau a gwmpesir gan y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn, oherwydd maent yn estyn darpariaethau i Gymru, gan gynnwys pwerau i Weinidogion Cymru, a fydd yn cefnogi ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu sydd wedi'u hymgorffori yn ein Cynllun Lles Anifeiliaid pum mlynedd i Gymru, gan gynnig cydlyniaeth o ran gorfodi a materion eraill ledled Cymru a Lloegr sy'n hanfodol o ystyried natur drawsffiniol y maes polisi hwn."

68. Fodd bynnag, aeth Llywodraeth Cymru ymlaen i ddweud *"Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid ydym am fynegi barn a ddylai'r Senedd gydsynio i'r Bil yn ei gyfanrwydd yn y pen draw"*. Y rheswm am hyn oedd ei bod yn parhau i fynd ar drywydd pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Rhan 2 (cŵn sy'n ymosod ar dda byw neu yn eu poeni) - er ei bod yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi cadw'r rhan hon o'r Bil yn gyfan gwbl - ac ar gyfer cynnwys Cymru yn y cymal newydd ar ddwyn anifeiliaid anwes.

69. Yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol newydd a osodwyd ar 3 Mawrth, mae Llywodraeth Cymru yn gorffen y Memorandwm (paragraffau 36 a 37) drwy ddatgan:

"Yn amodol ar ganlyniad terfynol y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol defnyddio'r Bil hwn ar gyfer y DU er mwyn bwrw ymlaen, yn bennaf ar sail Prydain Fawr gyfan, â materion pwysig a phroffil uchel sy'n ymwneud â lles anifeiliaid, yn enwedig lle bydd y nodau hynny'n elwa ar weithredu mewn ffordd a fydd yn cael ei chydgysylltu â llywodraethau eraill ar orfodi."

"Bydd y Bil hefyd yn rhoi eglurder i'r Llysoedd a'r cyhoedd ac mae'n gyfle amserol i fwrw ymlaen â'r newidiadau polisi a deddfwriaethol pwysig hyn."

70. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol newydd (Memorandwm Rhif 2) hefyd yn ailddatgan y safbwynt ym mharagraff 62 uchod. Fodd bynnag, mae'n mynd ymlaen i ddweud:

"Ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n gohirio'i barn a ddylai'r Senedd wrthod rhoi cydsyniad, yn rhannol am ein bod yn aros am ymateb ffurfioli'r ohebiaeth ryng-weinidogol mewn perthynas â phwerau i Weinidogion Cymru yn Rhan 2 y Bil (Cŵn sy'n ymosod ar dda byw neu'n eu poeni), er bod Llywodraeth y DU yn dadlau ar hyn o bryd bod y rhan hon o'r Bil yn fater sydd wedi'i lwyr gadw."

Cŵn sy'n ymosod ar dda byw neu'n eu poeni

71. Roedd adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm yn nodi'r gwahaniaeth barn rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynglŷn â phwerau o dan Ran 2. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y cymalau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig "i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth." Y rheswm am hyn yw ei fod wedi cymhwyso'r "prawf diben" fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 29.1(i), h.y. a oes gan y ddarpariaeth ddiben datganoledig (diogelu da byw, yn yr achos hwn). Barn Llywodraeth y DU yw bod y cymalau hyn yn ymwneud â chŵn peryglus (o dan y pennawd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru, sy'n faterion a gedwir yn ôl. Mae tudalen 24 o'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn nodi:

"...the subject matter of the Bill is also devolved to Senedd Cymru except in relation to the provisions dealing with dogs acting dangerously which are reserved in accordance with Schedule 7A to the Government of Wales Act 2006".

72. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol newydd (Memorandwm Rhif 2) yn nodi bod gohebiaeth â'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (EFRA) wedi arwain at yr Ysgrifennydd Gwladol yn cadarnhau ei farn bod hwn yn fater sydd wedi'i gadw yn ôl (paragraffau 16 i 20), ac felly bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu argymhell i'r Senedd fod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei wrthod yn rhannol, mewn perthynas â Rhan 2 o'r Bil.

Dwyn Anifeiliaid Anwes

73. Ar yr adeg yr ystyriodd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol gwreiddiol (Memorandwm Rhif 2), nid oedd unrhyw wybodaeth bellach ynghylch pryd, neu os, y gellid ymestyn y darpariaethau dwyn anifeiliaid anwes (cymalau 43 a 44 ar hyn o bryd) i Gymru, y byddai angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Nid yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol newydd (Memorandwm Rhif 2) a osodwyd ar 3 Mawrth yn cyfeirio at ddarpariaethau dwyn anifeiliaid anwes.

Amseriad y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

74. Ym mharagraff 7 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol blaenorol (Memorandwm Rhif 2), nododd Llywodraeth Cymru "nid oedd yn bosibl gosod y Memorandwm hwn o fewn y pythefnos arferol a ragnodir yn RhS 29, oherwydd maint a chymhlethdod y gwelliannau a gyflwynwyd". Mae'r un geiriad wedi'i gynnwys yn y fersiwn newydd o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn a osodwyd ar 3 Mawrth.

75. Roedd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol blaenorol a ystyriwyd gan y Pwyllgor hwn ar 3 Chwefror wedi'i ddyddio "10 Rhagfyr 2021" ar dudalen 10, ond cafodd ei osod ar 6 Ionawr 2022. Roedd fersiwn flaenorol, a osodwyd ar 10 Rhagfyr 2021, eisoes wedi'i thynnu'n ôl a'i disodli gan ei fod yn cynnwys cyfeiriadau anghywir at ddiwygiadau. Mae'r adroddiad hwn wedi'i ddiweddarau i ystyried y trydydd fersiwn newydd o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn (Memorandwm Rhif 2), a osodwyd ar 3 Mawrth.

Safbwynt y Pwyllgor

76. Roedd amseriad gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol blaenorol (Memorandwm Rhif 2), a gwallau gyda'r fersiwn gyntaf, yn llai na delfrydol o ran hwyluso gwaith craffu'r Pwyllgor. Roedd diffyg eglurder ynghylch rhifo cymalau yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol blaenorol, sy'n ymwneud â gwahanol fersiynau diwygiedig o'r Bil, hefyd yn rhwystro'r broses graffu. Nid oedd y ffaith bod y fersiwn ddiweddaraf o'r Bil a gyhoeddwyd ar wefan y Senedd yn dyddio'n ôl i 18 Tachwedd, ac nad oedd Nodiadau Esboniadol wedi'u diweddarau wedi'u cyhoeddi, yn helpu ychwaith. Gwnaethom nodi bod y materion hyn eisoes wedi'u codi gyda'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, mewn llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a gofynnwyd am ymateb erbyn 17 Chwefror. Cafodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ymateb gan y Gweinidog ar 3 Mawrth, a oedd yn nodi bod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol newydd (Memorandwm Rhif 2) wedi'i osod, ac yn amgáu tabl yn nodi cymalau'r Bil fel y'i cyflwynwyd ac fel y'i diwygiwyd.

77. Mae'r Pwyllgor wedi nodi barn RSPCA Cymru y byddai'n well gwahardd cadw primatiaid yng Nghymru, ond ei fod yn croesawu rheoleiddio pellach ar gyfer tua 120 o fwncïod y mae'n amcangyfrif eu bod yn cael eu cadw fel anifeiliaid anwes yma yng Nghymru ar hyn o bryd.

78. Mae'r Pwyllgor yn rhannu pryderon RSPCA Cymru am y diffyg eglurder presennol ynghylch amodau lles y drwydded arfaethedig, ac effaith wirioneddol y ddeddfwriaeth hon, ac mae'n cefnogi'r alwad ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori'n ystyrllon ar amodau'r drwydded a fydd yn cyfyngu ar gadw primatiaid yn breifat i'r lleiafswm posibl. Mae'n nodi dadl RSPCA Cymru (gweler paragraff 6 uchod) y byddai'n well ac yn haws i awdurdodau lleol orfodi gwaharddiad llwyr ar werthu primatiaid, yn ogystal â dadleuon am y baich a'r goblygiadau o ran adnoddau i orfodi trwyddedau lles anifeiliaid newydd. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael rhagor o wybodaeth gan y Gweinidog am ddull Llywodraeth Cymru o ymgynghori ar amodau'r drwydded, a chefnogi awdurdodau lleol i weithredu'r weithdrefn drwyddedu newydd. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau pa un a oes ganddi gynlluniau i gymhwyso Rhan 1 o'r Ddeddf i anifeiliaid gwyllt eraill ai peidio, yn unol â'r pwerau yng nghymal 22.

79. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod y llythyr a anfonwyd at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 3 Mawrth wedi datgan, mewn perthynas â Rhan 2 o'r Bil - cŵn sy'n ymosod ar dda byw neu yn eu poeni - y canlynol:

"Mae Gweinidogion DEFRA wedi gwrthod fy nghais i ddiwygio Rhan 2 o'r Bil i gynnwys Gweinidogion Cymru ar y sail eu bod o'r farn bod y mater wedi'i gadw yn ôl i Senedd y DU. Mae DEFRA yn ystyried bod y darpariaethau yn Rhan 2 o'r Bil yn ymwneud â chŵn peryglus, neu gŵn sydd allan o reolaeth. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r farn hon.

"Gan gydnabod bod "cŵn peryglus" yn fater a gedwir yn ôl, rwy'n dal i aros am ymateb gan Weinidog DEFRA ynghylch pam eu bod yn ystyried na allant roi pwerau yn y Bil mewn perthynas â'r diffiniad o dda byw sydd wedi'i ddatganoli i Gymru."

80. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi nodi manteision deddfu ar sail y DU gyfan er mwyn sicrhau dull cyson o ymdrin â lles anifeiliaid, ac ni welodd unrhyw reswm dros wrthwynebu cydsyniad y Senedd i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil hwn a ystyriwyd ar 30 Medi 2021. Byddai'n croesawu diweddariadau pellach i'r Aelodau gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r sefyllfa o ran Rhan 2 o'r Bil - cŵn sy'n poeni da byw - a pha un a ddisgwylir i'r darpariaethau ar ddwyn anifeiliaid anwes gael eu hestyn i Gymru ai peidio.